Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: clerc@valley-community-council.wales
Gwefan: www.cyngor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

# Canllawiau – Mynwent Ynys Wen

Mae Cyngor Cymuned Y Fali yn berchen ar Fynwent Ynys Wen ac yn gyfrifol am ei rheoli. Mae'r canllawiau hyn yn sicrhau bod y fynwent yn ddiogel i ymwelwyr ac i staff, yn hygyrch i'r sawl sydd â symudedd cyfyngedig, ac yn cael ei chynnal yn daclus ac yn barchus.

## 1. Hawliau Claddu Unigryw

Nid yw Grant Hawl Claddu Unigryw mewn bedd yn rhoi unrhyw hawl tir neu fuddiant yn y tir. Mae'r tir cyfan yn y fynwent, gan gynnwys arwyneb y bedd, bob amser yn parhau'n eiddo i Gyngor Cymuned Y Fali. Y person a gofnodir gan y Cyngor fel deiliad cofrestredig yr Hawl Claddu Unigryw sydd â'r hawl unigryw i benderfynu pwy all gael ei gladdu yn y bedd.

Mae'r Hawl Claddu Unigryw hefyd yn rhoi hawl i'r deiliad cofrestredig drefnu gosod cofeb ar y bedd, yn amodol ar ganiatâd ysgrifenedig ymlaen-llaw gan y Cyngor ynghylch dyluniad, deunyddiau, dimensiynau, dull adeiladu a gosod, ac ar gydymffurfio â rheoliadau'r fynwent.

## 2. Personau Awdurdodedig

Dim ond ymgymerwyr angladdau neu seiri maen sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor all wneud gwaith yn y fynwent. Yn ddibynnol ar y tywydd, caiff beddau eu tywarchu o fewn chwe mis i'r claddedigaeth.

## 3. Cofebion

Ni chaniateir codi cofeb oni bai bod yr Hawl Claddu Unigryw ar y plot yn nwylo'r perchennog cofrestredig ac y rhoddir awdurdod ysgrifenedig ganddo. Rhaid cytuno ar unrhyw newid i gofeb bresennol gyda'r Cyngor a'i wneud gan ymgymerwr angladdau neu seiri maen cymeradwy (gweler hefyd adran 7).

## 4. Cofebion Parhaol – Cerrig Bedd (uchafswm meintiau)

Rhaid i ymgymerwyr angladdau a seiri maen sicrhau bod cerrig bedd newydd yn cyd-fynd ag arddull y rhai presennol. **Uchafswm dimensiynau**:

- Deunydd: carreg naturiol addas.
- Uchder: hyd at 915 mm (3 troedfedd) o lefel y ddaear (gan gynnwys y sylfaen a'r plinth).
- Lled: hyd at 610 mm (2 droedfedd).
- Sylfaen: hyd at 610 mm (2 droedfedd) o led × 400 mm (1 troedfedd 4 modfedd) o ddyfnder.
- Trwch: 50–102 mm (2–4 modfedd).

## 5. Cofebion Dros Dro – Croes Bren

Gellir gosod croes bren dros dro ar y bedd; os bydd y groes yn dirywio neu'n anniogel, gall y Cyngor ei symud : **Uchafswm dimensiynau**

- Uchder: hyd at 915 mm (3 troedfedd) o lefer y ddaear.
- Lled: hyd at 610 mm (2 droedfedd).
- Gosod: argymhellir gosod tua thraean o gyfanswm yr uchder o dan y ddaear i sicrhau sefydlogrwydd.

6. **Beddau Plant**

**Cofebion parhaol**: fel adran 4, ond yn gyfyngedig i uchder o 610 mm (2 droedfedd).
**Cofebion dros dro**: fel adran 5, ond cyfyngedig i 610 mm (2 droedfedd) × 450 mm (18 modfedd).

7. **Rheolau Gofalu am Gofebion a Beddau**

Er mwyn diogelu diogelwch, mynediad a gwaith cynnal:

a) Rhaid cadw pob cofeb, planhigyn ac eitem o fewn ardal y garreg fedd; rhaid cadw'r lawnt yn glir ar gyfer mynediad, torri a chynnal.
b) Ni chaniateir gerddi llawn, ymyl na twmpath uwch ar y bedd.
c) Cedwir eitemau ar feddau (potiau blodau, lluniau, cerfluniau ayb.) ar risg y perchennog.
d) Rhaid cadw unrhyw eitemau nad ydynt wedi'u gosod yn gadarn o fewn ardal y garreg fedd.
e) Gellir tynnu eitemau heb awdurdod neu eitemau mewn cyflwr gwael heb rybudd, yn ôl disgresiwn y Cyngor.
f) Ni chaniateir cerrig man rhydd.
g) Gwaredu sbwriel a blodau marw yn y biniau a ddarperir os gwelwch yn dda.
h) Ni chaniateir unrhyw oleuo (gan gynnwys cannwyll, goleuadau solar neu oleuadau batri) ar neu o amgylch unrhyw fedd.
i) Mae plannu blodau neu lwyni o fewn tir y fynwent wedi'i wahardd oni bai bod y Cyngor wedi rhoi caniatâd.

8. **Polisi Noddi Mainc Goffa**

Mae posib noddi/rhoi mainc er cof anwylyn neu ganiatáu i'r cyhoedd wneud arysgrif goffa. Gellir gosod meinciau a roddir mewn mannau agored sy'n cael eu rheoli neu berchen gan Gyngor Cymuned Y Fali.

- Ynys Wen (uchafswm o bedair mainc yn y fynwent ar unrhyw adeg).
- Yn anffodus, nid ydym yn caniatáu i drydydd partïon ddarparu eu meinciau eu hunain i'w gosod ar dir y Cyngor.
- Mae'r tâl ar gyfer mainc goffa safonol 1.8m wedi'i hailgylchu yn eithriedig o TAW ac yn cynnwys plat coffa, mainc, gwaith gosod a 10 mlynedd o gynnal a chadw. Y tâl presennol yw £910.00. Gall y tâl newid pan fydd y Cyngor yn adolygu ei ffioedd.

Gweler y Polisi Noddi Mainc llawn yma:
http://www.valley-community-council.wales/wp-content/uploads/2020/02/Bench-Sponsorship-Policy.pdf

9. **Diogelwch a Chyfrifoldeb am Gofebion**

Perchennog y gweithredoedd yw'r  un sy'n gyfrifol am unrhyw gofeb. Dylai perchnogion fod yn ymwybodol y gall cofebion ansefydlog achosi anaf neu niwed. Mae'r Cyngor yn cynnal asesiadau risg rheolaidd ac, os oes angen, gall wneud cofeb yn ddiogel neu ei thynnu heb rybudd os ystyrir ei bod yn beryglus.

10. **Difrod ac Yswiriant**

Ni all y Cyngor dderbyn atebolrwydd am niwed i feddau neu gofebion. Rhaid i unrhyw gontractwyr a benodir gan y Cyngor ddal yswiriant priodol. Argymhellir i berchnogion cofebion gael yswiriant rhag difrod damweiniol neu ddifrod bwriadol.

11. **Symud neu ailgladdu gweddillion dynol neu ludw**

Yng Nghymru a Lloegr, mae symud neu ailgladdu gweddillion neu ludw fel arfer angen trwydded gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, neu Ffacwlt os yw'r bedd ar dir cysegredig. Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan ddeiliad y bedd a'r perthnasau agosaf, ac ni all unrhyw waith ddechrau nes bod hyn i gyd ar waith. Cysylltwch â'r Clerc am gyngor.

12. **Ymddygiad Cyffredinol a Mynediad**

- Rhaid cadw cŵn ar dennyn bob amser; rhaid i berchnogion gasglu baw cwn a'i waredu.
- Ac eithrio contractwyr a cherbydau sy'n dangos Bathodyn Glas, ni chaniateir cerbydau yn y prif ardal o'r fynwent.
- Parcio cerbydau ar risg y perchennog; ni chaniateir parcio dros nos.
- Am unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Clerc: clerk@valley-community-council.wales